

**Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**  
**4 Tachwedd 2019 yn Ffestri Capel Penuwch am 8 o'r gloch.**  
**Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,**  
**4 November 2019, in Penuwch Chapel Vestry, at 8pm**

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, Cyng Eirian Jones cymerodd y gadair am y noson, lle chrosawyd pawb i'r cyfarfod, gan gynnwys Christine Mison, Perchennog Eidelweise, Penuwch oedd am gwrdd a'r cynghorwyr a chyflwyno ei hunan.

*In the absence of the Chair and Vice-Chair, Cllr Eirian Jones chaired the meeting this evening. Everyone was welcomed to the meeting, including Christine Mison, the owner of Eidelweise, Penuwch, who wanted to meet the councillors and introduce herself.*

**Presennol/Present**

Cyng Eirian Jones (Gadair/Chair), Gwilym Evans, Gerwyn Ebenezer, Emyr Jones, Dafydd Morse, Paul Rooke John Evans a Cyng Rhodri Evans

**Ymddiheuriadau/Apologies** – Cyng Myrddin James, Gwenfair Owen, Daniel Thomas, Beryl Evans a Cyng Rhian Turner.

**Datgan Diddordeb/Declaration of Interest** – Neb / No one

**Adroddiad yr Heddlu/Police Report** – Yn absenoldeb yr heddlu ni dderbyniwyd adroddiad. / *In the absence of a police officer, no report was received.*

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting**

Cynnig / *Proposed*: Cyng John Evans

Eiliwyd / *Seconded*: Cyng Emyr Jones

**Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes**

- Trafodwyd ymhellach a oedd angen polyn a fflac ym mharc Llangeitho gan fod un eisoes ar gampws yr Ysgol Gynradd. Cytunwyd i Cyng Dafydd Morse i ofyn i Mr Huw Davies, hanes y fflac oedd ar ddaear yr Ysgol ac i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
- *There was further discussion with regard to the need for a flagpole in Llangeitho's park, as there was one already on the site of the primary school. It was agreed that Cllr Dafydd Morse ask Mr Huw Davies about the background to the acquisition of the flagpole at the school and report back to the next meeting.*
- Ni dderbynnir unrhyw ymateb hyd yma oddi wrth Julie Osmond, CADW am y gwaith i'w wneud ar y milwr ar gylchfan Llangeitho.
- *No further response from Julie Osmond, CADW, with regard to the work to be done on the soldier monument on Llangeitho square.*
- Cyng Rhodri Evans wedi cysylltu â Ms Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Mrs Glynis Davies ynglŷn â'r costau etholiadol yn dilyn etholiad, ac roeddent yn mynd i edrych nol yr archifau i weld faint oedd Cyngor Cymuned Llangeitho wedi'u dalu dros y blynyddoedd.
- *Cllr Rhodri Evans has consulted with Ms Lowri Edwards, Lead Corporate Officer, and Mrs Glynis Davies, about the election costs following on from an election. They were going to look in the archives to see how much Llangeitho Community Council had paid over the years.*
- Ddim wedi'u wneud am y twll yn y ffordd/culvert wedi cwmpo ar y gornel sy'n troi lan am Bronaeron o Parchrhydderch eto.
- *No work has been done yet on the hole in the road/collapsed culvert on the corner which turns up to Bronaeron from Parchrhydderch.*
- Golau lamp stryd gyferbyn a Glynderwen ddim wedi'u hadnewyddu hyd yma, Cyng Rhodri Evans i drafod efo Mr Simon Bray.
- *Street lamp opposite Glynderwen has still not been renewed. Cllr Rhodri Evans to discuss this with Mr Simon Bray.*
- Twll wrth ymyl y ffordd rhwng Cnwc y Barcud a Cae Melyn ddim wedi derbyn sylw hyd yma. Cyng Rhodri Evans i siarad â'r Cyngor Sir.
- *Hole in the roadside between Cnwc y Barcud and Cae Melyn still hasn't had any attention. Cllr Rhodri Evans to speak to County Council about this.*
- Soniwyd fod y garafán ar y sgwâr yn Llangeitho wedi'u symud draw ar bwys tŷ Castle House.
- *It was noted that the caravan on Llangeitho's square had been moved to the vicinity of Castle House.*

- Gofynnir i Cyng Rhodri Evans gwneud ymchwil i mewn a yw'r golau stryd yn cael ei ddychwelyd i gornel tŷ Castle House gan fod yna olau i oleuo'r ffordd wedi bod yno ers blynnyddoedd.
- *Cllr Rhodri Evans is asked to investigate whether the street lamp on the corner of Castle House is to be reinstalled, as there has been a street light there to light the road for years.*
- Cyng Daniel Thomas heb dderbyn ymateb o'r Swyddfa Bost am drefniadau'r fan symudol Swyddfa'r Bost yn dychwelyd i Langeitho hyd yma. Clerc wedi cysylltu â chlerc Cyngor Cymuned Lledrod ac nid oeddent yn gallu cadarnhau bod y fan swyddfa bost dal yn ymweld â Bronant / Lledrod.
- *Cllr Daniel Thomas has not received a response from the Post Office about when the mobile Post Office service is returning to Llangeitho. Clerk has contacted the clerk of Lledrod Community Council, and they aren't able to confirm when the mobile Post Office service is going to return to their area either.*
- Clerc wedi anfon llythyr yn ymateb i'r ymgynghoriad ynglŷn â gwaredu ffonau talu BT o fewn y gymuned.
- *Clerk has sent a written response to the consultation about doing away with BT pay phones in the area.*
- Cadarnhawyd Mr Will Evans bod yna hyfforddiant i ddod ym Mhenuwch ar sut i ddefnyddio'r peiriant di-ffib. Gofynnir i'r clerwr cysylltu â Mr Will Evans i ofyn a fyddai modd derbyn un noson o hyfforddiant ym Mhenuwch a'r llall yn Llangeitho.
- *Mr Will Evans confirmed that a training session for the use of the defibrillator machine would be held in Penuwch. The Clerk was asked to contact Mr Will Evans to see if it was possible for a training session to be held in Llangeitho, as well as Penuwch.*

### Gohebiaeth/Correspondence

- Dim i'w gofnodi. / *Nothing to report.*

### Cyfrifon/Accounts

- Balans y banc ar / *Balance in the bank on 31.10.2019 – £7,929.37*
- Cyflog y Clerc (Mis Hydref) / *Clerk's salary (October) £106.36*
- Praesept (3) wedi'u fancio / *Precept (3) banked £1,833.33*

### Cyngor Sir Ceredigion County Council

Trafodwyd y ceisiadau cynllunio isod a cytunwyd i'w cefnogi ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Gerwyn Ebenezer.

*The following planning applications were discussed and it was agreed to support them on the proposition of Cllr Dafydd Morse and seconded by Cllr Gerwyn Ebenezer.*

Ymgeisydd/Applicant: Ruth Owen Lewis  
 Safle/Site: Cefn-y-Garn, Llangeitho, Tregaron  
 Y Bwriad/Proposal: Retention of Menage

Ymgeisydd/Applicant: M Pope  
 Safle/Site: Ffosrodyn, Blaenpennal  
 Y Bwriad/Proposal: Increase the eaves and ridge height, change the porch from glass to timber frame and removal of window details from the rear.

Ni thrafodwyd y cais cynllunio yma gan ei fod allan o Ward Cyngor Cymuned Llangeitho.

*The above planning application was not discussed as the dwelling was not in the area of Llangeitho Community Council.*

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor Sir i gynnal adolygiad o ddosbarthau pleidleisio, manau pleidleisio a gorsafoddd pleidleisio bob 5 mlynedd. Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg o 16 Hydref hyd at 4 Rhagfyr 2019 a gellir gweld y ddogfennaeth ar wefan – [www.ceredigion.gov.uk/adolygugorsafodddpleidleisio](http://www.ceredigion.gov.uk/adolygugorsafodddpleidleisio). Dylai unrhyw sylwadau cael ei danfon yn ysgrifennedig i'r rheolwr Gwasanaethau Etholiadol drwy e-bost neu drwy'r post erbyn 4 Rhagfyr 2019. Trafodwyd gorsaf pleidleisio Llangeitho a chytunwyd bod y lleoliad yn addas iawn.

*It is a requirement of the County Council to hold a review of voting districts, voting locations and polling stations every five years. The present consultation is running from 16 October to 4 December 2019 and it is possible to see the details at this web address: <http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations/polling-station-review/> Any comments should be sent in writing to the Electoral Services manager, by e-mail or post, by 4 December 2019. Llangeitho polling station was discussed, and it was agreed that its location was very suitable.*

## **Un Llais Cymru/One Voice Wales**

Dim i adrodd. / *Nothing to report.*

## **Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- Angen y sweeper ym Mhenuwch a heibio Bronaeron a phlwyf Llanbadarn Odwyn.
- *There is the need for the sweeper in Penuwch, and also past Bronaeron, and also in Llanbadarn Odwyn parish.*
- Angen i'r briciau sydd tu allan i Castle House gael eu symud – mater i'r heddlu.
- *There is a need for the bricks outside Castle House to be moved – matter for the police.*
- Angen gwneud yn siŵr fod y ffyrdd yn cael ei gritio o flaen llaw yn ystod adeg yr Etholiad gan fod gan bawb yr hawl i bleidleisio.
- *It is important that the roads are all gritted, if the weather conditions are poor, on the morning of the General Election, so that everyone is able to vote.*
- Tipyn o fwd ar y ffordd cyn dod at gwmini bysiau brodyr James, angen anfon neges i'r Cyngor Sir.
- *A great deal of mud on the road into Llangeitho just before the James bus company, need to notify the County Council about this.*
- Diolchwyd i Cyng Eirian Jones am ymgymryd â gwaith y Cadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.
- *Cllr Eirian Jones was thanked for chairing the meeting in the absence of the Chair and Vice-Chair.*

## **Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting**

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar 2ail o Rhagfyr 2019 – Neuadd Jiwibili Llangeitho.

*The next meeting will be held at Jubilee Hall, Llangeitho, on Monday, 2 December 2019.*